Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Bryn Onnen
## Heol Y Farteg
## Pontypŵl
## NP4 7RT

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/09/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Bryn Onnen ar gyrion pentref Y Farteg, ger Pontypŵl a chaiff ei chynnal gan awdurdod addysg Torfaen. Mae'r dalgylch presennol yn cynnwys Blaenafon, Pontypŵl, Penygarn a Threvethin.

Mae 239 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 27 o blant meithrin rhan amser. Fe'u rhennir yn 9 o ddosbarthiadau. Cyflogir 11 o athrawon ar hyn o bryd, gan gynnwys y pennaeth.

Mae tua 21% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol wedi adnabod bod ganddi 24% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un disgybl â datganiad addysg ychwanegol nac mewn gofal.

Dynodir yr ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg. Cymraeg yw’r brif iaith a siaredir yn y cartref gan tua 8% o’r disgyblion ond, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Cafodd yr ysgol ei sefydlu yn yr adeilad presennol yn 1995. Yn 2010 yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2009. Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r ysgol wedi gweithredu heb ddirprwy bennaeth am bedair blynedd tan benodiad y dirprwy presennol ym Medi 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn Onnen yn 2014-2015 yw £3,259. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Nhorfaen yw £14,422 a'r lleiafswm yw £2,940. Mae Ysgol Bryn Onnen yn yr 20fed safle o'r 29 ysgol gynradd yn Nhorfaen o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod medrau llafar llawer o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan
- Bod medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarn
- Bod llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith
- Bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd
- Bod ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gadarn ar draws yr ysgol gydag ychydig o elfennau o addysgu da iawn yn y Cyfnod Sylfaen
- Bod yr ysgol yn gymuned ofalgar a hapus, lle mae blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i les disgyblion

Fodd bynnag:

- Digonol yw datblygiad y disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n briodol er mwyn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn
- Nid yw'r broses o olrhain cynnydd y disgyblion yn ddigon miniog er mwyn cynllunio'r cam nesaf yn eu dysgu
- Nid yw'r sylwadau marcio bob amser yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella safon eu gwaith
- Nid yw'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn bodloni'r holl ofynion statudol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol ar gyfer gwella, sydd wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn o rai agweddau ar fywyd yr ysgol
- Bod y pennaeth a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant
- Bod cyswllt priodol yn bodoli rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol
- Bod y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryf

Fodd bynnag:

- Nid yw'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth monitro yn ddigon drylwyr i dargedu'n

gywir er mwyn cael effaith gadarn ar safonau disgyblion ymhob maes dysgu

- Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cynnar iawn yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol
- Mae'r broses o fonitro rheolaidd a chyson yn newydd ac nid yw eto wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar safonau

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd medrau ysgrifennu a llafar Cymraeg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Mireinio cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r cwricwlwm yn derbyn sylw priodol

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella prosesau marcio, asesu ac olrhain cynnydd i sicrhau'r deilliannau gorau i bob disgybl

A5 Mireinio adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant fel eu bod yn adrodd ar bob maes dysgu a phwnc

A6 Ymateb i'r materion sy'n ymwneud â diogelu

A7 Mynd i'r afael a'r argymhelliad a wnaed yn yr arolygiad diwethaf sy'n ymwneud â chyflwr gwael y cabanau

A8 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu gweithrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol er mwyn gwella safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus gan ddefnyddio ystod eang o eirfa aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i gadarnhau ystyr ac yn dangos dealltwriaeth addas o'r prif bwyntiau. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio cymariaethau gwreiddiol i ychwanegu diddordeb yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft, 'yn drist fel blodyn heb ddŵr'. Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn medru defnyddio eu medrau ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae'r llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn trafodaethau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r disgyblion yn trafod eu syniadau yn y Gymraeg yn ddigon hyderus oherwydd diffyg geirfa. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn glir, yn defnyddio mynegiant priodol ac yn dangos dealltwriaeth o brif ddigwyddiadau'r testun. Mae llawer yn cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i ddatrys problemau. At ei gilydd, mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig perthnasol ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o atalnodi a pharagraffu. Fodd bynnag, nid yw'r gystrawen bob amser yn gywir wrth ysgrifennu yn y Gymraeg ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar rediad y darnau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Mae'r rhan fwyaf yn trafod a chymharu rhinweddau amryw o awduron yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm i safon briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ysgrifennu rhifau mewn trefn hyd at 300, dyblu a haneru hyd at 30 a datrys problemau rhif yn effeithlon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llawer o ddisgyblion mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn briodol ac mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth addas o ddulliau cyfrifo yn gywir wrth ddatrys problemau. Serch hynny, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd hyn yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol. Mae datblygiad disgyblion mwy abl eu gallu mewn llythrennedd a rhifedd yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, digonol yw eu datblygiad mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Dros gyfnod o dair blynedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefelau uwch wedi bod yn gyson yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad dros yr un cyfnod wedi bod gan amlaf yn y 50% uchaf. Er hynny, mae perfformiad ymhob un o'r pynciau craidd wedi disgyn i'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2014.

Mae tuedd i ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim berfformio yn gyffredinol is na'r disgyblion eraill dros gyfnod o amser.

Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig nac ar y lefel uwch na'r disgwyl dros gyfnod o amser.

**Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach, gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn mwynhau dysgu am gadw'n iach ac yn cael cyfleoedd mewn gwersi a chlybiau ar ôl ysgol i ymarfer y corff a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon. Maent yn falch iawn o'u hysgol, yn teimlo'n ddiogel a hapus yno ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn dda iawn. Maent yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol, er wedi gwella, wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae aelodau'r cyngor ysgol, cyngor eco a swyddogion "Bullies Out" yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Caiff yr aelodau gyfleoedd priodol i fynegi barn a chyfrannu at ddatblygiad yr ysgol drwy gael eu llais yn ddogfen hunanarfarnu'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n addas ar gyfer diwallu gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Mae gwaith cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu medrau mathemategol ac ieithyddol disgyblion. Mae'r disgyblion yn cael profiadau addas ar gyfer datblygu eu medrau

meddwl a'u gallu gwyddonol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n briodol er mwyn bodloni holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. O ganlyniad, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Yn dilyn dadansoddiad o berfformiad yr ysgol mewn darllen, mae'r ysgol wedi targedu grwpiau o ddisgyblion ar gyfer derbyn ymyrraeth a chymorth ychwanegol. Mae hyn wedi profi'n effeithiol wrth wella medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion. Rhoddir sylw priodol i'r dimensiwn Cymreig trwy astudio arlunwyr fel Kyffin Williams a Helen Elliott ac mae'r ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall a dathlu diwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Ceir darpariaeth effeithiol sy'n galluogi'r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft drwy astudio Lesotho, Nepal, a Phatagonia a thrwy gyswllt penodol gydag ysgol yn Uganda. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth addas i agweddau cynaliadwyedd a'r amgylchfyd. Mae digon o gyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth drwy weithgareddau fel garddio, ailgylchu dillad a thyfu a gwerthu llysiau. Mae'r ysgol yn flaenllaw mewn ymgyrchoedd masnach deg lleol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at elusennau. Mae nifer o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol yn cyfoethogi profiadau'r plant ac mae llawer o ddisgyblion yn elwa o'r amrywiaeth sydd ar gael.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gadarn ar draws yr ysgol gydag elfennau o addysgu da iawn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mron pob dosbarth. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac mae'r gweithgareddau'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn holi'n effeithiol er mwyn hybu ymatebion estynedig gan y disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r staff cynorthwyol yn chwarae eu rôl yn effeithiol. Maent yn cefnogi'r dysgu'n gydwybodol ar draws yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y disgyblion yn dda.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn addas. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd, ond nid yw'r sylwadau bob amser yn rhoi digon o arweiniad iddynt ar sut i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn briodol wrth asesu cynnydd y disgyblion. Er hynny, nid yw'r broses o asesu ac olrhain cynnydd y disgyblion yn ddigon miniog er mwyn cynllunio'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gyflawniadau eu plant trwy gyfarfodydd tymhorol, diwrnodau agored ac adroddiadau ysgrifenedig Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd ar bob maes dysgu a phwnc. O ganlyniad, nid ydynt yn bodloni'r holl ofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus, lle mae blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i les disgyblion.  Mae manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol priodol.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.
Nid yw holl drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion gan fod rhai agweddau yn achosi peth pryder.

Mae anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar, a darperir cymorth ac arweiniad buddiol ar gyfer y disgyblion hyn.  Mae'r athrawon yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio rhaglenni unigol ac adolygir y cynnydd yn gyson.  Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol fel gweithwyr cymdeithasol a'r seicolegydd addysg.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos cryf o ofal yn bodoli yn yr ysgol, lle mae disgyblion yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi yn ddyddiol.  O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus yn yr ysgol.

Mae'r staff yn gwneud defnydd da iawn o adeilad a thir yr ysgol.  Er bod rhan o'r adeilad yn hen, mae'r ysgol, ar y cyfan, mewn cyflwr da.  Fodd bynnag, nid yw'r cabanau symudol mewn cystal cyflwr â'r prif adeilad a thynnwyd sylw'r llywodraethwyr at hyn.

Mae ystod eang o adnoddau pwrpasol gan yn yr ysgol sy'n galluogi'r disgyblion i fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau.  Mae ardaloedd y Cyfnod Sylfaen, y tu mewn a'r tu allan, yn ddeniadol ac wedi eu trefnu'n dda ar gyfer sicrhau ystod eang o brofiadau i ddysgu drwy chwarae.   Mae dosbarthiadau'r ysgol wedi'u haddurno gyda llawer o arddangosfeydd pwrpasol a chreadigol sy'n cynnwys gwaith y disgyblion ac yn atgyfnerthu ethos Gymraeg a Chymreig yr ysgol.

| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol ar gyfer gwella, sydd wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn am ystod o agweddau ar fywyd yr ysgol.  Mae'n rhannu'r weledigaeth yn briodol gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni er mwyn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm.  Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn datblygu eu rolau yn briodol fel arweinwyr.  Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn dechrau cymryd rhan yn y broses o fonitro gwersi a chraffu ar lyfrau.  Gwneir

defnydd addas o ddadansoddi data perfformiad i adnabod rhai o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen ymyrraeth i wella’u medrau sylfaenol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon trylwyr i dargedu’n gywir er mwyn cael effaith gadarn ar safonau disgyblion ymhob maes dysgu.

Mae trefniadau addas yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a’r staff ategol. Mae’r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn briodol ac yn gosod pwyslais cryf ar ddatblygu medrau darllen. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynllunio’n ddigon bwriadus i ddatblygu pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol nac yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o safonau disgyblion a’r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau herio’r ysgol a monitro’i gweithdrefnau ar gyfer sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, cynnar iawn yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth a’r arweinwyr ddarlun priodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data cyrhaeddiad a deilliannau prosesau monitro. Mae’r adroddiad yn arfarnol, ac yn nodi cryfderau ac agweddau priodol i’w gweithredu yng nghynllun datblygu’r ysgol. Enghraifft o hyn yw’r modd mae’r broses wedi adnabod yr angen i godi safonau darllen disgyblion ac mae hyn wedi gwella perfformiad yr ysgol mewn darllen o’i chymharu ag ysgolion eraill.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i fonitro safonau’r addysgu a’r dysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion. Mae’r adroddiadau sy’n deillio o’r broses fonitro yn berthnasol ac yn nodi nodweddion da a’r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, mae’r broses o fonitro rheolaidd a chyson yn newydd ac nid yw wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng deilliannau’r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun yn nodi nifer priodol o flaenoriaethau gwella ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen gweithredu a dangosyddion llwyddiant. Caiff gweithrediad y cynllun ei fonitro’n rheolaidd gan y pennaeth, yr uwch dîm arwain a’r corff llywodraethol. Fodd bynnag, nid yw’r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol na’r dangosyddion llwyddiant yn ddigon meintiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu’r ysgol i fesur cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion.

Nid yw’r ysgol wedi mynd i’r afael yn llwyr â dau o’r argymhellion ers yr arolygiad, sef gwella cyflwr y cabanau a gwella ansawdd y marcio er mwyn rhoi arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un o'i chryfderau. Oherwydd lleoliad yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cael eu cludo'n ddyddiol mewn bws. Mae'r pennaeth yn deall natur anghysbell yr ysgol ac yn gweithio'n ddiwyd i wahodd y rhieni i'r ysgol mor aml â phosibl i wasanaethau gwobrwyo wythnosol. Maent hefyd yn cynnal diwrnodau agored ac yn croesawu rhieni i siarad am eu gwaith yn ystod wythnos fyd gwaith ac, o ganlyniad, mae'r gymdeithas ysgol yn un agos.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn cyfrannu mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth creu bwgan brain ac yn rhedeg busnes gyda Phartneriaeth Garnsychan lle caiff y disgyblion gyfle i dyfu a gwerthu llysiau yn y gymuned leol. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd leol, sy'n hyrwyddo paratoadau disgyblion hŷn yn dda ar gyfer trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion y dalgylch, drwy gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar gywirdeb asesu diwedd cyfnod.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar les disgyblion. Ymysg ymwelwyr eraill, daw'r heddlu a'r nyrs yn eu tro i rannu gwybodaeth bwysig gyda'r disgyblion, a'u helpu i ddeall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ac iach.

Mae partneriaeth effeithiol iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a swyddogion adran addysg yr awdurdod lleol, sydd wedi cefnogi'r ysgol a chynnig cyfeiriad iddi dros gyfnod diweddar. Mae hyn yn gymorth i arweinwyr ddatblygu'n fwy hunangynhaliol wrth fynd i'r afael â chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o aelodau staff ac mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'u harbenigedd i ddarparu ystod bwrpasol o weithgareddau a phrofiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn berthnasol i ofynion statudol ar faich gwaith athrawon a gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol ar waith gydag ysgolion eraill yn y dalgylch, er enghraifft ar wella medrau allweddol disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r llywodraethwyr a’r pennaeth yn rheoli gwariant yn briodol i sicrhau nad oes gorwariant, a bod swm y cyllid wrth gefn yn rhesymol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella safonau, ac mae canlyniadau profion cenedlaethol cyfredol yn dangos bod mwyafrif y disgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu cyrhaeddiad mewn darllen. Caiff y cynllun ei fonitro’n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

O ystyried deilliannau’r disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6782318 - YSGOL BRYN ONNEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 255 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.5 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 45 | 26 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 62.2 | 65.4 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.1 | 65.4 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.9 | 15.4 | 13.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 73.1 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.9 | 19.2 | 10.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.2 | 88.5 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 42.3 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6782318 - YSGOL BRYN ONNEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 255 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.5 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 22 | 28 | 28 | 37 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 95.5 | 78.6 | 100.0 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 28 | 28 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 82.1 | 96.4 | 91.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 46.4 | 35.7 | 10.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 28 | 28 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 78.6 | 100.0 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 25.0 | 28.6 | 8.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 28 | 28 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 85.7 | 100.0 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.8 | 53.6 | 42.9 | 5.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 28 | 28 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 89.3 | 100.0 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 18.2 | 60.7 | 42.9 | 5.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 33 | 32<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 33 | 24<br>73% | 9<br>27% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 33 | 32<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 33 | 29<br>88% | 4<br>12% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 33 | 22<br>67% | 11<br>33% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 33 | 31<br>94% | 2<br>6% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 33 | 29<br>88% | 4<br>12% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 33 | 28<br>85% | 5<br>15% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 33 | 27<br>82% | 6<br>18% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 33 | 30<br>91% | 3<br>9% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 33 | 20<br>61% | 13<br>39% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 33 | 20<br>61% | 13<br>39% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 5 | 5 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 45% | 45% | 9% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 8 | 2 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 18% | 9% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 2 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 18% | 64% | 18% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 4 | 4 | 2 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 40% | 20% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 3 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 27% | 64% | 9% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 6 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 36% | 9% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 1 | 5 | 5 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 9% | 45% | 45% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 7 | 1 | 3 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 9% | 27% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 5 | 5 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 4 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 36% | 64% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 9 | 2 | 5 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 22% | 56% | 22% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 3 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 27% | 64% | 9% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 5<br>45% | 5<br>45% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 4<br>36% | 7<br>64% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 3<br>30% | 7<br>70% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 3<br>27% | 7<br>64% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 3<br>27% | 8<br>73% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Marc Lloyd Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ryan Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.